CYRSIAU'R BRIFYSGOL AGORED SY'N GWEDDU I'CH FFORDD O FYW…

# Astudiaeth Achos **Abigail Thomas**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

**Mae'r fam i dri a'r deithwraig frwd Abigail Thomas o Sir Gaerfyrddin ar fin dechrau cwrs addysgu uwchradd rhan-amser am ddwy flynedd gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru ac mae'n teimlo ei bod o'r diwedd am gychwyn ar ei gyrfa ddewisol.**

**Wedi ei geni a'i magu yn Sanclêr, aeth Abigail ymlaen i astudio seicoleg yn Llundain lle cafodd ei blas cyntaf ar addysgu. Roedd y brifysgol yn annog myfyrwyr i fanteisio ar y cyfle i fod yn rhan o gynllun tiwtora mewn ysgolion, ac er bod Abigail wedi mwynhau'r profiad yn fawr, nid oedd y gost ychwanegol o wneud cwrs TAR pellach ar y pryd yn ymarferol.**

"Gwnes i fwynhau'r cyfle o fod o flaen y plant, ond ar ôl tair blynedd yn y brifysgol, roedd hi'n amser dechrau ennill cyflog a chefais swydd gydag asiantaeth hysbysebu. Ar ôl gwneud hynny am ychydig flynyddoedd cefais ysfa i deithio, felly dyma bacio'r cês a ffwrdd â fi am rai blynyddoedd – Awstralia, Seland Newydd, America, Israel – a chael profiadau gwych ar hyd y ffordd."

**Ar ôl dychwelyd i'r DU, bu'n gweithio yng Nghaerdydd mewn amrywiaeth o rolau cyfathrebu cyn priodi a phenderfynu fel teulu i symud yn ôl i'r gorllewin. Tra'n magu eu tri o blant, cafodd brofiadau newydd unwaith eto, gan wirfoddoli gyda'r Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi lleol a chael ei hethol yn gynghorydd tref, rôl mae hi'n parhau i'w chyflawni heddiw.**

**Roedd yr ysfa i addysgu yn dal i fod yno ond gyda theulu ifanc roedd yn anodd dod o hyd i gwrs a allai weddu i'w bywyd teuluol.**

"Roeddwn i wedi gwneud amrywiol ymholiadau ynglŷn â chyrsiau addysgu ond doedden nhw ddim yn addas i fywyd teuluol - yna gwelais gynnig rhan-amser y Brifysgol Agored a sylweddolais ei fod yn berffaith i mi. Llwyddais i sicrhau swydd gyflenwi am dri mis mewn ysgol uwchradd leol a roddodd gipolwg gwych i mi gan fy mod yn ymwneud â phob pwnc a phob oedran – paratoad delfrydol."

**Wrth i Abigail edrych ymlaen at ddechrau ei chwrs dysgu o bell, mae'n credu y bydd ei chyfoeth o brofiadau bywyd yn ei rhoi mewn sefyllfa dda, yn enwedig gan fod cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno.**

"Rydw i wedi bod yn ffodus iawn o gael y cyfle i deithio'n helaeth a chael profiad mewn amrywiol sectorau – fydd yn fuddiol iawn wrth arwain cenedlaethau'r dyfodol. Mae nifer o'm rolau wedi canolbwyntio ar sicrhau cyfathrebu clir, sy'n elfen hanfodol wrth ymgysylltu â phobl ifanc, yn fy marn i.

"Rydw i hefyd yn ffodus i fod ar y trywydd iawn nawr i gyflawni fy uchelgais o rannu fy angerdd am fy mhwnc gydag eraill a meithrin ynddynt yr awydd i ddysgu.

"Rwy'n llwyr gefnogi natur gyfannol, drawsbynciol y cwricwlwm newydd ac er mai Gwyddoniaeth yw fy mhwnc, rydw i eisiau ymgorffori pob elfen, o feddwl yn greadigol i lythrennedd a chymhwysedd digidol, gan y bydd angen y sgiliau hynny ar ein pobl ifanc wrth iddynt fentro allan i'r byd a dod yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol.

"Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb lwybrau hyblyg newydd Llywodraeth Cymru i addysgu sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol Agored – ac mae'r bennod ddiweddaraf yn fy mywyd amrywiol ar fin dechrau."

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru